

Rheolwr Data: Itec, 029 20 663800

Swyddog Diogelu Data: data.security@itecskills.co.uk

Fel rhan o unrhyw broses recriwtio, mae'r sefydliad yn casglu ac yn prosesu data personol sy'n ymwneud ag ymgeiswyr am swyddi. Mae'r sefydliad wedi ymrwmo i fod yn agored ynghylch sut mae'n casglu ac yn defnyddio'r data hwnnw ac i fodloni ei rwymedigaethau diogelu data.

Pa wybodaeth ydy'r Cwmni yn casglu?

Mae'r sefydliad yn casglu amrywiaeth o wybodaeth amdanoch sy'n cynnwys:

- eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn;
- manylion eich cymwysterau, sgiliau, profiad a hanes cyflogaeth;
- gwybodaeth am eich lefel ariannol gyfredol, gan gynnwys hawliau budd-daliadau;
- gwybod os oes gennych anabledd y mae angen i'r sefydliad wneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer yn ystod y broses recriwtio;
- gwybodaeth am eich hawl i weithio yn y DU;

Mae'r sefydliad yn casglu'r wybodaeth hon mewn amrywiaeth o ffyrdd. Er enghraifft, gallai data gael ei gynnwys mewn ffurflenni cais, CVs neu resume, a gafwyd o'ch pasbort neu ddogfennau adnabod eraill, neu a gasglwyd drwy gyfweiliadau neu fathau eraill o asesiadau, gan gynnwys profion ar-lein.

Mewn rhai achosion, mae'r sefydliad hefyd yn casglu data personol amdanoch chi gan drydydd partïon, megis geirdaon a gyflenwir gan gyn-gyflogwyr, neu drydydd partïon eraill (Polisi Cyfeirnod HR006) a gwybodaeth o drefniadau cofrestru'r gweithlu addysg a gwiriadau cofnodion troseddol a ganiateir gan y gyfraith. Bydd y sefydliad yn chwilio am wybodaeth gan drydydd partïon dim ond unwaith y bydd cynnig swydd i chi wedi'i wneud, a bydd yn eich hysbysu ei fod yn gwneud hynny.

Bydd data'n cael ei storio mewn amrywiaeth o wahanol leoedd, gan gynnwys ar gofnod eich cais, mewn systemau rheoli AD ac ar systemau TG eraill (gan gynnwys e-bost).

Pam ydy'r sefydliad yn casglu data personol?

Mae angen i'r sefydliad brosesu data i gymryd camau yn eich cais cyn ymrwmo i gontract gyda chi. Mae angen iddo hefyd brosesu'ch data i ymrwmo i gontract gyda chi.

Mewn rhai achosion, mae angen i'r sefydliad brosesu data i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol. Er enghraifft, mae'n ofynnol i wirio cymhwysedd ymgeisydd llwyddiannus i weithio yn y DU cyn i'r gyflogaeth ddechrau.

Mae gan y sefydliad ddiddordeb cyfreithlon mewn prosesu data personol yn ystod y broses recriwtio ac ar gyfer cadw cofnodion o'r broses. Mae prosesu data gan ymgeiswyr am y swydd yn caniatáu i'r sefydliad reoli'r broses recriwtio, asesu a chadarnhau addasrwydd ymgeisydd i gyflogaeth a phenderfynu ar bwy i gynnig swydd. Efallai y bydd angen i'r sefydliad hefyd brosesu data gan ymgeiswyr am y swydd i ymateb i hawliadau cyfreithiol ac amddiffyn yn erbyn y cyfryw geisiadau.

Lle mae'r sefydliad yn dibynnu ar fuddiannau cyfreithlon fel rheswm dros brosesu data, mae wedi ystyried a yw'r buddiannau hynny wedi'u diystyru gan hawliau a rhyddid gweithwyr ac wedi dod i'r casgliad nad ydynt.

Mae'r sefydliad yn prosesu gwybodaeth iechyd os oes angen iddo wneud addasiadau rhesymol i'r broses recriwtio ar gyfer ymgeiswyr sydd ag anabledd. Mae hyn er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau ac arfer hawliau penodol mewn perthynas â chyflogaeth.

Yn achos rhai rolau, mae'n rhaid i'r sefydliad geisio gwybodaeth am gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg ac euogfarnau troseddol a throseddau. Lle bo'r sefydliad yn gofyn am y wybodaeth

hon, mae'n gwneud hynny oherwydd ei fod yn angenrheidiol iddo gyflawni ei rwymedigaethau ac arfer hawliau penodol mewn perthynas â chyflogaeth.

Os na fydd eich cais yn llwyddiannus, bydd y sefydliad yn cadw eich data personol ar y ffeil rhag ofn y bydd cyfleoedd cyflogaeth ar gael i chi yn y dyfodol. Bydd y sefydliad yn gofyn am eich cydsyniad cyn iddo gadw eich data at y diben hwn ac mae croeso i chi dynnu'ch cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg.

Pwy sydd â mynediad i'r data?

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu'n fewnol at ddibenion yr ymarfer recriwtio. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r tîm adnoddau dynol a recriwtio, cyfwelwyr sy'n ymwneud â'r broses recriwtio, rheolwyr yn y maes busnes gyda swydd wag a staff TG os oes angen mynediad at y data er mwyn cyflawni eu rolau.

Ni fydd y sefydliad yn rhannu eich data gyda thrydydd partïon, oni bai bod eich cais am gyflogaeth yn llwyddiannus ac rydym yn gwneud cynnig o gyflogaeth i chi. Bydd y sefydliad wedyn yn rhannu gyda chyn gyflogwr neu drydydd partïon eraill i gael geiradaon ar eich cyfer, yn seiliedig ar waith y byddwn hefyd yn ei rannu gyda darparwyr trydydd parti i gael gwiriadau cofnodion troseddol angenrheidiol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Cyngor y Gweithlu Addysg i gael y gwiriadau cofrestru angenrheidiol a'r Cyfrif dyfarnu i gael cymeradwyaeth ar gyfer darparu cymwysterau. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu eich gwybodaeth gyda chyfraith cyflogaeth allanol a chynghorwyr AD er mwyn derbyn cyngor ar faterion, er enghraifft cwmpas yr addasiad rhesymol.

Ni fydd y sefydliad yn trosglwyddo eich data y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Sut mae'r sefydliad yn diogelu data?

Mae'r sefydliad yn cymryd diogelwch eich data o ddifri. Mae ganddo bolisiâu a rheolaethau mewnol ar waith i sicrhau nad yw eich data yn cael ei golli, dinistrio'n ddamweiniol, ei gamddefnyddio neu ei ddatgelu, ac nid yw'n cael ei gyrchu ac eithrio gan ein gweithwyr wrth gyflawni eu dyletswyddau yn briodol. Mae'r broses yn ei le fel yr amlinellir yn y Polisi a Gweithdrefnau Diogelu Data BI063 a'r Polisi Defnydd Derbyniol ICT001.

Os nad ydy eich cais am gyflogaeth yn llwyddiannus, bydd y sefydliad yn cadw eich data ar ffeil am 6 mis ar ôl diwedd y broses recriwtio berthnasol. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw caiff eich data ei ddileu neu ei ddinistrio.

Os bydd eich cais am gyflogaeth yn llwyddiannus, bydd data personol a gesglir yn ystod y broses recriwtio yn cael ei drosglwyddo i'ch ffeil personél a'i gadw yn ystod eich cyflogaeth. Bydd y cyfnodau y cedwir eich data ar eu cyfer yn cael eu darparu i chi mewn hysbysiad preifatrwydd newydd (Hysbysiad Preifatrwydd Cyflogai).

Eich hawliau

Fel gwrthrych data, mae gennych nifer o hawliau. Gallwch:

- cael gafeal ar eich data a'i gael ar gais;
- ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad newid data anghywir neu anghyflawn;
- ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad ddileu neu roi'r gorau i brosesu eich data, er enghraifft lle nad yw'r data'n angenrheidiol mwyach at ddibenion prosesu;
- gwrthwynebu prosesu'ch data lle mae'r sefydliad yn dibynnu ar ei ddiddordebau cyfreithlon fel y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu; a

- gofyn i'r sefydliad roi'r gorau i brosesu data am gyfnod os yw'r data'n anghywir neu os oes anghydfod ynghylch a yw eich buddiannau'n diystyru rhesymau cyfreithlon y sefydliad dros brosesu data.

Os hoffech ymarfer unrhyw un o'r hawliau hyn, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data, data.security@itecskills.co.uk neu yn eu habsenoldeb, yr Adran AD. Gallwch wneud cais mynediad pwnc trwy lenwi ffurflen y sefydliad (Ffurflen Gais Mynediad at Pwnc) i wneud cais mynediad pwnc.

Os ydych yn credu nad yw'r sefydliad wedi cydymffurfio â'ch hawliau diogelu data, gallwch gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Beth os na fyddwch yn darparu data personol?

Nid oes unrhyw rwymedigaeth statudol neu gytundebol arnoch i ddarparu data i'r sefydliad yn ystod y broses recriwtio. Fodd bynnag, os nad ydych yn darparu'r wybodaeth, efallai na fydd y sefydliad yn gallu prosesu eich cais yn briodol neu o gwbl.

Gwneud penderfyniadau awtomataidd

Nid yw prosesau recriwtio yn seiliedig ar wneud penderfyniadau awtomataidd yn unig.